Prifysgol Bangor

**COFNODION Y CYNGOR**

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd yn y Brifysgol ddydd Gwener, 14 Chwefror 2020.

**Presennol**:
Mrs Marian Wyn Jones (Cadeirydd), Mr Mark Barrow, Yr Athro Iwan Davies, Dr Myfanwy Davies, Yr Athro Andrew Edwards, Dr Peter Higson, Dr Griff Jones, Dr Karen Jones, Dr Llion Jones, Mr Marc Jones, Syr Paul Lambert, Mrs Alison Lea-Wilson, Miss Lleucu Myrddin, Ms. Ellen Parry-Williams, Dr Ian Rees, Yr Athro Gareth Roberts, Yr Athro David Thomas, Yr Athro Carol Tully, Yr Athro Oliver Turnbull, Mr Tudur Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Eiddo a Champws, Cyfarwyddwr Cyllid a Mrs Gwenan Hine (Ysgrifennydd).

Gwnaeth Dr Tomos Dafydd gyfrannu drwy Skype.

Roedd yr Athro Jerry Hunter yn bresennol ar gyfer eitemau 19.53 a 19.54.

**Ymddiheuriadau**:
Miss Julie Perkins

## 19.50 MARWOLAETHAU

Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaethau'r canlynol yn ddiweddar:

**Brian Saunderson**, cyn aelod staff yn y Gwasanaethau TG
**Ifor Wynne**, cyn aelod staff yn yr Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig
**Alan James Lawrence Busst**, Athro Emeritws Ffrangeg
**Olive Keidan**, cyn ddarlithydd Gweinyddiaeth Gymdeithasol
**John Wyn Owen**, Cymrawd er Anrhydedd y brifysgol.

Safodd yr aelodau er cof amdanynt.

## 19.51 LLONGYFARCHIADAU

**Ar dderbyn Cadair er Anrhydedd:**

Yr Athro Neri Alves, Ysgol Cyfrifiadureg a Pheirianneg Electronig

**Ar dderbyn Cadair Bersonol:**

Lucy Huskinson, Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas

**Llongyfarchwyd y canlynol gan y Cadeirydd hefyd:**

Tri o fyfyrwyr Prifysgol Bangor sydd wedi cael eu henwebu am Wobrau RTS Cymru 2020 y Gymdeithas Deledu Frenhinol yng Nghymru 2020.

- Matt Melling a oedd yn gyfarwyddwr, golygydd a sinematograffydd *Searching for Happiness*, a wnaeth fel rhan o'i MA mewn Gwneud Ffilmiau.

- Ffilm Tomos Jones *Elis Derby: Fi ac OCD* a wnaed ar gyfer ei broject israddedig; a
- *Where are U?* project blwyddyn olaf gan fyfyriwr astudiaethau ffilm Hannah Grinmston mewn cydweithrediad â chyd-fyfyriwr Astral Roberts (a olygodd a chyfarwyddodd y ffilm).

Hefyd, mae ymchwil PhD arloesol, yn edrych ar ffactorau tîm sy'n berthnasol yng nghriced proffesiynol, gan Leonie Webster wedi ennill gwobr am y traethawd PhD gorau 2019 gan Gymdeithas Seicolegol Prydain, ac mae eisoes wedi gwella a dylanwadu'n uniongyrchol ar hyfforddiant i hyfforddwyr proffesiynol yn y DU.

Nodwyd fod Prifysgol Bangor yn y degfed safle drwy'r byd am ei hymrwymiad i gynaliadwyedd yn ôl tabl cynghrair rhyngwladol o sefydliadau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd. Mae'r brifysgol yn un o bedair prifysgol yn y DU sy'n ymddangos yn y 10 uchaf o'r UI Green Metric, tabl cynghrair o brifysgolion gwyrddaf y byd. Aseswyd 780 o brifysgolion mewn 85 gwlad yn y tabl cynghrair a lansiwyd gan Universitas Indonesia i dynnu sylw at gynaliadwyedd a rheolaeth amgylcheddol mewn prifysgolion ledled y byd.

## 19.52 DATGANIADAU BUDD

A. Atgoffwyd yr aelodau y dylent ddatgan unrhyw fudd personol, ariannol neu fanteisiol yn unrhyw fater a ystyrir yn y cyfarfod hwn cyn i'r mater hwnnw gael ei ystyried.

B. Datganodd yr aelodau canlynol fudd:

[1] Dr Ian Rees, Cadeirydd Panel Archwilio Comisiynydd y Gymraeg.

## 19.53 STRATEGAETH BANGOR 2050

A. Cyflwynodd yr Athro Jerry Hunter y Strategaeth ddrafft i'r Cyngor sy'n canolbwyntio ar yr ymchwil a chanllawiau sy'n arwain y sector y mae'r brifysgol eisoes yn adnabyddus amdanynt. Roedd y Strategaeth yn cyd-fynd yn agos â dyhead Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

B. Nodwyd y byddai'r strategaeth yn cynnwys nifer o wahanol elfennau, yn cynnwys adrannau, a grwpiau sydd eisoes wedi eu sefydlu yn y brifysgol (megis Canolfan Bedwyr ac UMCB) yn ogystal â rhwydwaith o staff sy'n ymchwilio i faterion Cymraeg/dwyieithog, menter fwy masnachol sy'n gweithio ar safonau Cymraeg ac ymgyrch recriwtio Cymraeg gyda'r nod o gynyddu nifer y myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n dod i'r brifysgol.

C. Bydd y Grŵp Strategaeth Iaith Gymraeg yn gweithredu'r Strategaeth, dan gadeiryddiaeth yr Is-ganghellor.

## 19.54 STRATEGAETH CYSYLLTIADAU DINESIG

A. Rhoddwyd adroddiad i'r aelodau gan yr Athro Hunter hefyd am y Strategaeth Cysylltiadau Dinesig ddrafft a nodwyd:

[1] Bydd y drafft yn cael ei gylchredeg yn eang yn y brifysgol ar gyfer ymgynghori;

[2] Bydd ymgynghori yn cael ei gynnal hefyd yn y gymuned leol a gyda phartneriaid busnes, yn cynnwys busnesau bach a chanolig.

[3] Bydd y Strategaeth yn gweithredu o fewn ffrâm y nodau sydd wedi eu cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

B. Croesawodd y Cyngor gyfeiriad presennol y Strategaeth ond nododd ei bod yn bwysig sicrhau bod gan y brifysgol y capasiti i ymgymryd â'r ymgysylltu a'r ymgynghori angenrheidiol.

C. Nodwyd bod yr Athro Hunter wedi penderfynu rhoi'r gorau i'w swydd fel Dirprwy Is-ganghellor yn ddiweddar i ganolbwyntio ar ei ymchwil. Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Hunter am ei waith ar lefel uwch yn y brifysgol ers nifer o flynyddoedd a dymunodd yn dda iddo i'r dyfodol. Ategwyd hyn gan Miss Myrddin ar ran Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor.

## 19.55 COFNODION

A. Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 29 Tachwedd 2019.

B. Gan gyfeirio at:

[1] **Materion Ystadau** (Cofnod 19.36); nodwyd bod adroddiad wedi ei ddiweddaru wedi ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau ddechrau mis Chwefror. Roedd arolwg cyflwr chwe agwedd lawn o'r ystâd gyfan wedi cael ei gomisiynu ac mae astudiaeth beilot yn cael ei chynnal ar hyn o bryd ar gampws Wrecsam. Bydd y peilot yn rhoi syniad da o'r hyn y gellir ei ddisgwyl ar draws y campws ehangach a chaiff ei adolygu'n drylwyr gyda rhanddeiliaid allweddol. Disgwylir y bydd yr holl arolygon wedi eu cwblhau erbyn mis Gorffennaf 2020, ond ni fydd y rhaglen gyfredol yn cynnwys adeiladau sydd wedi cael eu cadw'n wag neu adeiladau sydd ddim yn cael eu defnyddio gan y bydd arolwg yn cael ei wneud ohonynt yn ddiweddarach.

Roedd rhaglen o gynnal a chadw ataliol yn cael ei blaenoriaethu, gyda gwaith ar gwteri yn flaenoriaeth gyntaf. Adroddwyd mai dim ond ychydig o ddifrod a achoswyd gan y stormydd diweddar. Roedd ffenestr yn Nhŵr Alun Roberts wedi chwythu allan, ond ni adroddwyd unrhyw anafiadau.

Nodwyd bod yr arolwg o Adeilad Alun Roberts wedi cael ei ddwyn ymlaen a bod mesurau rhagataliol yn cael eu gwneud ar hyn o bryd. Diolchodd yr aelodau i Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Eiddo a Champws am fwrw ymlaen â'r materion a godwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor mewn perthynas â'r adeilad, a bydd adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

C. Darparwyd cofnod gweithredu yn nodi cynnydd yr holl gamau gweithredu sydd heb eu cyflawni yn y Cyngor. Nododd y Cyngor gynnydd a chamau gweithredu a gwblhawyd.

## 19.56 Y DIWEDDARAF AR RECRIWTIO MYFYRWYR

A. Rhoddodd yr Athro Andrew Edwards wybodaeth am y sefyllfa bresennol o ran recriwtio myfyrwyr. Nodwyd bod niferoedd recriwtio myfyrwyr rhyngwladol 14% yn uwch (ôl-radd

hyfforddedig) a 23% (israddedig) na llynedd, ond bod niferoedd y myfyrwyr cartref/UE ychydig yn is, sef tua 6%, o gymharu â'r ffigurau ar yr un adeg y llynedd.

B. Nodwyd bod trafodaethau yn parhau i gael eu cynnal gydag UCAS Media ac y derbyniwyd nifer o awgrymiadau. Yn ogystal, roedd Michael Laverty, Brand & Reputation wedi cael ei gyflogi i edrych ar frand y brifysgol. Adroddodd yr Athro Edwards eu bod yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar:

- Adnewyddu rhaglenni academaidd presennol, yn cynnwys adolygiad o bortffolio cyrsiau'r brifysgol, a sefydlu blwyddyn sylfaen mewn busnes a gwyddoniaeth a oedd yn datblygu'n yn dda;
- Diweddaru ac adnewyddu gwefan y brifysgol, a chyflwyno gwefan newydd erbyn dechrau'r haf;
- Adolygu, a datblygu, ymgyrchoedd cyfryngau wedi eu targedu;
- Nodi sefydliadau sy'n cystadlu â ni a meincnodi gyda chymorth data gan UCAS Media.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd parhau i gefnogi recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, yn benodol er mwyn gwrthbwyso unrhyw leihad yn niferoedd myfyrwyr Cartref/UE. Adroddwyd, fodd bynnag, bod niferoedd recriwtio wedi codi gyda rhaglenni lle cafwyd ymyriad gan UCAS Media, a'u bod dim ond 1.1% yn is na'r llynedd yn hytrach na'r 6% yr adroddwyd ar draws y portffolio.

C. Nododd aelodau'r Cygnor:

[1] Roedd y Pwyllgor Gweithredu wedi cymeradwyo gwariant ychwanegol o £235k ar farchnata a recriwtio ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfredol, yn canolbwyntio ar gapasiti rheng flaen ychwanegol ar gyfer diwrnodau agored, adnoddau staffio ychwanegol yn y tîm recriwtio a marchnata canolog, gwell recriwtio rhwng cyfoedion a datblygu gweithio mewn partneriaeth ar farchnata a recriwtio rhwng y tri Choleg.

[2] Cytunwyd ar nifer o swyddi newydd, gyda'r bwriad y byddai rhai'n cael eu llenwi ar unwaith ac eraill yn ddiweddarach yn y flwyddyn academaidd. Nodwyd y byddai'r brifysgol hefyd yn defnyddio ymgynghorwyr yn y cyfamser i gefnogi gwaith y gwasanaeth marchnata canolog.

[3] Roedd angen i ddull y brifysgol o farchnata fod yn fodern ac edrych tuag allan ac awgrymwyd y dylid datblygu'r cysylltiad â Chroeso Cymru ymhellach.

## 19.57 MATERION YR IS-GANGHELLOR

A. Tynnodd yr Is-ganghellor sylw'r Cyngor at nifer o faterion.

[1] **Gweinidog Prifysgolion**

Adroddwyd am benodiad Michelle Donelan AS yn Weinidog Prifysgolion. Nodwyd nad oedd y swydd weinidogol, am y tro cyntaf ers tro, yn cynnwys y cyfarwyddyd gwyddoniaeth a fydd yn cael ei weithredu trwy'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

Nodwyd nad oedd unrhyw arwydd clir o hyd sut y bydd y llywodraeth yn bwrw ymlaen a'r Adroddiad Augur ar hyn o bryd.

**[2] Horizon Europe**

Mae'n ymddangos bod llywodraeth y DU wedi ymrwymo i Horizon Europe, ond nid oedd dyfodol rhaglen Erasmus yn glir eto. Roedd angen i'r brifysgol ystyried sut y byddai'n bwrw ymlaen â'r rhaglen symudedd myfyrwyr yn y dyfodol.

**[3] Adolygiad Gillian Camm o Lywodraethu yng Nghymru**

Roedd Adolygiad Camm o Lywodraethu yng Nghymru yn mynd rhagddo, a disgwylid cyhoeddiad yn fuan. Unwaith y bydd canlyniad yr adolygiad yn hysbys, byddai'r argymhellion yn cael eu hystyried a'u cyflwyno i'r Cyngor i'w trafod.

**[4] Pensiynau USS**

Ystyriodd y Cyngor a fyddai'r brifysgol yn gallu cynyddu ei chyfraniad i gynllun pensiwn yr USS o 21.2%, a chytunwyd, o ystyried yr her ariannol y byddai hynny'n ei achosi, nad oedd hyn yn rhywbeth y gallai'r Cyngor gytuno iddo ar hyn o bryd.

**[5] Air Accident Investigation Branch**

Nodwyd bod yr Is-ganghellor wedi derbyn llythyr o ddiolch gan yr Air Accident Investigation Branch am y gefnogaeth a ddarparwyd gan y brifysgol, ac yn benodol gan long y Tywysog Madog, wrth chwilio am yr Athro David Last a bu farw mewn damwain awyren drasig ym mis Tachwedd 2019.

## 19.58 NEWYDDION DIWEDDARAF UNDEB Y MYFYRWYR

Derbyniodd y Cyngor adroddiad gan Undeb y Myfyrwyr ar eu gweithgareddau, eu hymgyrchoedd a'u digwyddiadau diweddar. Nodwyd y bu Etholiad Cyffredinol Rhagfyr 2019 yn un o brif flaenoriaethau'r Undeb hyd yma yn ystod y flwyddyn academaidd hon ac, yn benodol, rhoi ar ddeall i fyfyrwyr eu bod yn gallu cofrestru i bleidleisio naill ai ym Mangor neu yn eu cyfeiriad cartref.

Mae Cynllun Strategol Undeb y Myfyrwyr yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a chynlluniau cyfathrebu a marchnata fydd yn cael eu cynnal yr un pryd. Un o amcanion allweddol y Cynllun fydd annog cyfranogiad myfyrwyr rhyngwladol mewn gweithgareddau a digwyddiadau, ac am y tro cyntaf bydd llysgenhadon myfyrwyr rhyngwladol yn rhan o'r gwobrau addysgu dan arweiniad myfyrwyr a gynhelir ar 1 Mai.

Lluniwyd deiseb i'w hanfon at Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gostyngiad mewn gwasanaethau trên, a chostau uwch, ledled Gogledd Cymru yn dilyn y newid yn y gweithredwr trenau.

Cwblhawyd arolwg a oedd yn edrych ar brofiadau myfyrwyr Cymraeg y flwyddyn gyntaf a derbyniwyd nifer o sylwadau defnyddiol a fydd yn galluogi Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor (UMCB) i gynorthwyo myfyrwyr blwyddyn gyntaf y dyfodol i ymgartrefu yn y brifysgol o'r Wythnos

Groeso ymlaen. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gydag ysgolion academaidd mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg yn ystod yr Wythnos Groeso.

## 19.59 ADRODDIAD Y PWYLLGOR GWEITHREDU

Derbyniwyd adroddiad o gyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredu a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2019 a mis Chwefror 2020(ynghlwm fel Atodiad I i gopi swyddogol y cofnodion), a thynnwyd sylw at y materion canlynol yn arbennig:

**[1]** **Grŵp Gwybodaeth** - Derbyniodd y Pwyllgor Gweithredu adroddiad cynhwysfawr o gyfarfod cyntaf y Grŵp Gwybodaeth (Grŵp 'K') a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion academaidd a gwasanaethau proffesiynol. Dywedwyd bod staff yn croesawu'n gynnes y cyfle i drafod ac i gwrdd â chydweithwyr newydd a bod y Grŵp yn aeddfedu a chynyddu ei waith.

**Materion Mewnfudo -** Nodwyd bod y brifysgol wedi tynnu fisa dros 30 o fyfyrwyr o India yn ôl yn ystod y semester blaenorol oherwydd materion yn ymwneud â phresenoldeb ac ymwneud. Mae newidiadau mewn prosesau derbyniadau ar gyfer ardaloedd yr ystyrir eu bod yn risg uchel yn India bellach wedi eu rhoi ar waith a nodwyd nad yw'r mater hwn yn unigryw i Fangor.

**Coronafirws (Covid 19) -** Mae gweithgor tactegol wedi ei sefydlu ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod ymateb y brifysgol ac i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i staff yn rheolaidd. Mae tudalen gwestiynau cyffredin wedi ei chreu a chaiff ei diweddaru'n aml, ac mae negeseuon e-bost torfol wedi eu hanfon at yr holl staff a myfyrwyr yn tynnu sylw at gyngor cyfredol y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, y GIG ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ynglŷn â theithio ac iechyd. Mae staff a myfyrwyr sydd dramor mewn gwledydd sydd wedi eu heffeithio'n benodol gan y firws wedi eu nodi, a lle bo angen, mae cymorth ariannol wedi ei ddarparu iddynt ddychwelyd i'r DU.

## 19.60 ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR STRATEGAETH A PHERFFORMIAD

Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Strategaeth a Pherfformiad a gynhaliwyd 20 Ionawr 2020 (ynghlwm fel Atodiad II i gopi swyddogol y cofnodion).

***A. MATERION WEDI'U CADW YN ÔL***

**B. Ysgol Feddygol Gogledd Cymru**

Derbyniodd y Cyngor adroddiad yn amlinellu'r weledigaeth i sefydlu Ysgol Gwyddorau Meddygol ac Iechyd rhyngbroffesiynol trawsnewidiol ar gyfer Gogledd Cymru. Croesawodd yr aelodau y datblygiad gan nodi bod y Pwyllgor Gweithredu wedi cytuno i gomisiynu achos busnes galluogi.

## 19.61 ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR CYLLID AC ADNODDAU

A. Cymeradwywyd yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a gynhaliwyd 3 Chwefror 2020 (ynghlwm fel Atodiad III i gopi swyddogol y cofnodion hyn).

B. Nodwyd bod y Cyfarwyddwr Cyllid wedi penderfynu rhoi gorau i'w swydd ar ôl 11 mlynedd ac y byddai'n gadael y brifysgol ddiwedd mis Mawrth. Dywedodd yr Is-ganghellor fod Mike wedi

arwain yr adran trwy gyfnod o newid sylweddol yn ddiweddar ac wedi rheoli datblygu proses well yn y meysydd busnes ac ariannol. Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, i Mike Davies am ei gyfraniad dros y blynyddoedd a dymunodd yn dda iddo yn y dyfodol. Nodwyd y bydd penodiad dros dro yn cael ei wneud cyn ymadawiad Mike.

**19.62 DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL**

**A. Recriwtio Myfyrwyr;** Nododd y Cyngor y sefyllfa recriwtio ddiweddaraf, a nodwyd y pwyntiau canlynol yn arbennig:

[1] Mae ceisiadau gan fyfyrwyr Cartref/UE israddedig wedi gostwng 6% o gymharu â'r un adeg y llynedd (ac eithrio ceisiadau am gyrsiau Gofal Iechyd a ariennir gan HEIW). Dros ddwy flynedd mae'r gostyngiad yn fwy arwyddocaol (-22%) sy'n cyfateb i ostyngiad o dros 1,400 o geisiadau.

[2] Mae ceisiadau rhyngwladol wedi cynyddu 20% (israddedig) a 13% (ôl-raddedig) o gymharu â'r adeg hon y llynedd, sy'n cyfateb i gynnydd o bron i 160 o geisiadau. Dros gyfnod o ddwy flynedd, mae cynnydd o 33% (israddedig) a 25% (ôl-raddedig) sy'n cyfateb i gyfanswm o dros 600 o geisiadau ychwanegol.

[3] Mae'n dal yn gymharol gynnar i ddod i unrhyw gasgliadau pendant ynghylch tueddiadau recriwtio ac yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae ceisiadau wedi gwella yn ddiweddarach yn y cylch. Cafwyd adferiad diweddar yn niferoedd myfyrwyr Cartref/UE israddedig. Ar nodyn cadarnhaol, mae gallu'r brifysgol i drosi ceisiadau gan fyfyrwyr Cartref israddedig yn dderbyniadau yn parhau'n gryf, ac mae'r myfyrwyr sy'n dod i'r dyddiau agored yn parhau i fod yn frwdfrydig ynglŷn ag astudio yma.

**B. Metrigau Ariannol;** rhoddwyd gwybodaeth am y Sefyllfa Diwedd Blwyddyn yng Nghyfnod 5 2019/20 er gwybodaeth. Rhagwelwyd amrywiant cadarnhaol o £333k yng Nghyfnod 5 ar gyfer canolfan adnoddau academaidd, yn erbyn cyfanswm gwariant cyllideb o £49m. Roedd y Gwasanaethau Proffesiynol yn dangos amrywiant anffafriol o £1.873m a oedd yn ymwneud yn bennaf ag amrywiannau a adroddwyd yn flaenorol. Mewn perthynas ag is-gwmnïau, roedd y rhagolwg cyffredinol yn dangos amrywiant cadarnhaol o £69k yn erbyn y gyllideb gwariant.

C. **Grantiau a Chontractau Ymchwil**; Nodwyd amrywioldeb o flwyddyn i flwyddyn mewn Grantiau Ymchwil ac incwm Contract ac yn benodol nodwyd bod incwm ymchwil wedi cynyddu ychydig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac eithrio incwm cronfeydd strwythurol.

**19.63 ADRODDIAD O'R SENEDD**

Cyflwynodd yr Is-ganghellor yr adroddiad ar gyfarfod y Senedd a gynhaliwyd 21 Ionawr 2020.

**19.64 ADRODDIAD DYFARNIADAU A CHEISIADAU GRANT YMCHWIL**

A. Dywedodd y Dirprwy Is-ganghellor y Cyngor y cynhaliwyd ymarfer REF ffug ym mis Rhagfyr a mis Ionawr, a oedd wedi mynd rhagddo'n ddidrafferth, ac y byddai adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

B. Dangosodd yr Adroddiad Dyfarniadau a Cheisiadau Grant Ymchwil fod y brifysgol yn parhau i ymgymryd ag ymchwil o ansawdd uchel a gydnabyddir yn rhyngwladol. Fodd bynnag, roedd hefyd yn amlwg nad yw ymchwilwyr yn dod â chymaint o gyllid grant i mewn ar hyn o bryd ag yr hoffai'r brifysgol. Mae incwm ymchwil wedi ei feincnodi, fesul CALl (FTE), bellach yn cael ei rannu â cholegau ac ysgolion a gobeithir y bydd hyn yn cynorthwyo ysgolion i ystyried eu hincwm ymchwil fesul CALl yn y dyfodol. Roedd yn destun pryder i nodi bod cyfanswm y gorbenion ar incwm ymchwil bron wedi haneru ers 2013/14, a nodwyd bod angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod ymchwilwyr yn deall y broses FEC yn llawn.

C. Adroddwyd bod gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gynnwys mwy o ddata ar sail metrigau yn y broses PDR a dyrchafiadau, a chadarnhawyd bod hyfforddiant yn cael ei gynnig i ymchwilwyr i gefnogi ysgrifennu ceisiadau am grantiau ymchwil.

## 19.65 PWYLLGOR ENWEBIADAU A LLYWODRAETHU

A. Cymeradwywyd yr adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd 31Ionawr 2020 (ynghlwm fel Atodiad IV i gopi swyddogol y cofnodion).

B. Nododd y Cyngor y cynnydd a wnaed o ran adolygu'r Siarter, Statudau ac Ordinhadau, a dywedwyd wrthynt y byddai dogfennau wedi'u diweddaru yn dod ger bron cyfarfod nesaf y Cyngor i'w cymeradwyo.

## 19.66 PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH

A. Derbyniodd y Cyngor adroddiad o bwyntiau allweddol gan y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch, nad oedd wedi cyfarfod ers cyfarfod diwethaf y Cyngor.

B. Adroddwyd am ddigwyddiad yng Nghanolfan Brailsford lle bu 3 aelod staff yn rhoi CPR i gwsmer a oedd wedi cael ei daro'n wael, ac roedd y Cyngor yn falch o nodi bod y cwsmer yn gwella yn yr ysbyty.

C. Yn dilyn trafodaeth, gofynnodd y Cyngor i'r Pwyllgor roi adroddiad mwy manwl mewn achosion lle nad oes cofnodion ar gael.

## 19.67 MATERION ADNODDAU DYNOL

A. Derbyniodd y Cyngor adroddiad ar faterion Adnoddau Dynol, a nododd yn arbennig fod UCU wedi cytuno i 14 diwrnod arall o weithredu diwydiannol yn dechrau ddiwedd mis Chwefror ac yn parhau tan ddechrau mis Mawrth.

B. Derbyniwyd, er gwybodaeth, restr o benodiadau uwch diweddar.

## 19.68 SELIO

Cadarnhaodd y Cyngor selio'r dogfennau a restrwyd yn Agendum 15.